# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar ansawdd addysg yn

## Y.G. Abergynolwyn
Abergynolwyn
Gwynedd
LL36 9YP

**Rhif yr ysgol: 6612179**

**Dyddiad yr arolygiad: 08/02/10**

**gan**

**Terry Lynn Williams**
**79524**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/04/10**

**O dan rif contract Estyn: 1110509**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a’r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

83. Maent yn mynychu teithiau cerdded ac ymweliadau, ac yn cymryd rhan mewn gwyliau yn yr eglwys leol a lleoedd eraill sy‟n hwyluso eu dealltwriaeth o agweddau hanesyddol a daearyddol o fewn eu hardal. Maent hefyd yn elwa o brofiadau preswyl yn Rhyd-ddu, sy‟n cynnig amrywiaeth o weithgareddau awyr agored i‟r disgyblion, ynghyd â chyfleoedd i ddatblygu eu hunanhyder a‟u hannibyniaeth.

84. Mae datblygiad personol y disgyblion yn cael ei hyrwyddo‟n dda, ac mae themâu a phynciau perthnasol yn cael eu hintegreiddio a‟u trafod yn ystod amser cylch. Mae‟r ysgol yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae negeseuon moesol a gwerthoedd cadarn yn cael eu hyrwyddo yn ystod y sesiynau addoli ar y cyd, sy‟n annog disgyblion i fod yn ddiolchgar, i rannu ac i feddwl am eraill. Mae‟r disgyblion yn cymryd rhan mewn codi arian ar gyfer sefydliadau elusennol a chymunedau eraill megis Haiti. Mae eu rôl fel aelodau o gyngor yr ysgol yn eu hannog i ddangos cyfrifoldeb cymdeithasol.

## Addysg grefyddol

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### Nodweddion da

177 Mae gan ddisgyblion y ddau gyfnod allweddol ddealltwriaeth dda o bwrpas ac ystyr dathliadau Cristnogol megis bedydd, priodas, diolchgarwch, Nadolig a‟r Pasg. Mae ganddynt wybodaeth dda o brif nodweddion yr eglwys leol a gallant esbonio arwyddocâd yr eglwys, wrth iddynt sôn am bwysigrwydd y seremoni briodas, lle buont yn cymryd rhan weithredol.

178 Mae gan yr holl ddisgyblion ddealltwriaeth dda o ystyr gweddi ac maent yn cyfansoddi gweddiau byr o ddiolch. Maent yn gwybod pa mor bwysig oedd y Beibl i Mari Jones, ac mae llawer wedi ail-droedio‟r daith o Abergynolwyn i‟r Bala, fel y gwnaeth Mari Jones i nôl Beibl oddi wrth Tomos Charles.

179 Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn defnyddio eu sgiliau creadigol yn dda i roi trefn ar luniau a digwyddiadau yn stori‟r cread, ac yn gwerthfawrogi‟r byd o‟u cwmpas. Gallant gofio nifer o storiau‟r Hen Destament yn gywir, er enghraifft straeon Noa, Moses a Jona a damhegion y Testament Newydd.

180 Deallant fod pawb yn perthyn i deulu Duw, ac wrth drafod y goeden deuluol a chylch bywyd, maent yn cynnig eu hymatebion personol, yng ngoleuni‟r hyn sydd wedi cael ei drafod.

181 Mae‟r disgyblion hŷn yn ymwybodol bod pobl yn dathlu gwyliau gwahanol yn unol â‟u credoau crefyddol. Mae ganddynt wybodaeth gyffredinol dda o‟r grefydd Hindwaidd a gŵyl Diwali. Deallant y symboliaeth sy‟n gysylltiedig â‟r ffydd Foslemaidd ac arwyddocâd gwahanol arteffactau.

182 Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn myfyrio a chyfathrebu‟n ystyrlon wrth ymateb i brofiadau dynol, gan ddangos empathi, megis wrth drafod pobl ddigartref. Dangosant sensitifrwydd wrth drafod y materion a defnyddiant TGCh yn effeithiol i gywain gwybodaeth a mynegi eu hymatebion personol eu hunain.

### Diffygion

183 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.